10FED O ORFFENNAF

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Mabolgampau

Cawsom sesiynau mabolgampau hyfryd ar gychwyn yr wythnos, gyda'r feithrin, derbyn, bl 1 a 2. Hoffem ddiolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth a'ch brwdfrydedd yn ystod y mabolgampau.

Roedd y cystadlu'n frwd, pawb yn rhoi o'u gorau, a'r awyrgylch yn un o wir fwynhad i bawb.

Yn dilyn y rhagolygon tywydd a'r tymheredd yn codi, roedd rhaid gwneud y penderfyniad anodd i ganslo Mabolgampau Bl 5 a 6 yn Stadiwm Leckwith heddiw, er mwyn sicrhau diogelwch a lles ein disgyblion a'n staff.

Rydym yn siomedig na fydd modd cynnal y digwyddiad fel y bwriadwyd ond teimlwn mai dyma'r penderfyniad mwyaf cyfrifol o ystyried yr amodau tywydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch corfforol mewn tymereddau uchel.
Diolch yn fawr am eich dealltwriaeth a'ch cefnogaeth barhaus.

## Calendr

**Diwrnod olaf y tymor Dydd Gwener, yr 17eg o Orffennaf.**

**Ni fydd clybiau allgyrsiol yr ysgol yn cael eu cynnal wythnos nesaf. Diolch i'r staff am eu holl waith yn ystod y flwyddyn.**

# Diwrnodau HMS 2026/2027

Dyma restr o ddiwrnodau HMS 2026/2027.

Dydd Mawrth 1.9.26

Dydd Mercher 2.9.26

Dydd Llun 19.10.26

Dydd Llun 4.1.27

Dydd Llun 19.7.27

Dydd Mawrth 20.7.27

# Julia Davage

Hoffem ddiolch yn fawr i Mrs Julia Davage am ei holl waith caled, ei hymroddiad a'i chyfraniad gwerthfawr dros y blynyddoedd. Mae ei hymrwymiad a'i gofal wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r plant, yr ysgol a'r gymuned gyfan. Dymunwn bob hapusrwydd, iechyd a llwyddiant iddi yn ei hymddeoliad, a gobeithiwn y bydd yn mwynhau cyfnod newydd llawn cyfleoedd a hamdden haeddiannol.

## Cyngor Ysgol

Er mwyn dathlu diwedd y flwyddyn, bydd y Cyngor Ysgol yn gwerthu lolïau ia am £1 yr un ar yr iard ar ôl ysgol ddydd Mawrth, 14 Gorffennaf.



## Dathlu Dysgu

Roedd yn hyfryd cael croesawu'r rhieni i mewn yr wythnos hon ar gyfer ein sesiynau Dathlu Dysgu.

Mae'r plant wedi mwynhau rhannu gyda chi eu taith ddysgu dros y tymor, ac roedd yn gyfle gwerthfawr i chi weld penllanw eu gwaith.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda'r sesiynau hyn y flwyddyn nesaf!

## Patrwm Iaith yr Wythnos

Fy hoff atgof i eleni yw…
**Her**
Oherwydd…

**Testun Trafod yr wythnos**
Mae Gwyddoniaeth yn bwysicach na Chelf

**Cân yr wythnos**
Edward H Dafis - Breuddwyd Roc a Rôl

**Idiom yr wythnos**
Gorau po gyntaf